OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 714

# Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Gwynedd) 2007

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "yr ardal barcio" ("*the parking area*") yw'r ardal a ddynodir yn ardal barcio a ganiateir ac yn ardal barcio arbennig gan erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "Deddf 1984" ("*the 1984 Act*") yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);ac

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf Traffig Ffyrdd 1991.

(**1**) 1984 p.27. Diwygiwyd adran 32(4)(a), ac amnewidiwyd adran 45(1), gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), Atodlen 8, paragraffau 39 a 44. Mewnosodwyd adrannau 46(1A), 63A a 101(4A) a (5A) gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991, adrannau 64(2), 44(1) a 67(4) a (6). Diwygiwyd adran 102(8) gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991, adran 68(3).